Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Cynllunio

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyflwynwyd:** Hydref 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 307A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Robert Hathaway ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru dan gyfarwyddyd John Roberts ac Alan Morris.

# Cynnwys

Mae arweinyddiaeth dda a llywodraethu cryf yn gwella'r gwasanaethau cynllunio, ond nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru a chyflawni gwerth am arian yn ddigon cadarn.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| **Gweledigaeth ac arwain:** Mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur, mae wedi gwella'r prosesau craffu ac mae wedi gwella'r modd y mae uwch swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd | 7 |
| Mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur a ddatblygwyd ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol | 7 |
| Mae cydweithio mwy effeithiol rhwng uwch swyddogion ac aelodau wedi esgor ar arweinyddiaeth well | 7 |
| Mae'r Awdurdod wedi cryfhau ei brosesau craffu drwy ddysgu o fodelau mewn sefydliadau eraill a thrwy ymgysylltu â'r cyhoedd | 8 |
| Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol ond mae diffyg pwyslais parhaus ar wireddu'r weledigaeth hon | 9 |
| **Darparu a chost:** Mae perfformiad y gwasanaeth cynllunio yn dda ac, er bod bodlonrwydd cwsmeriaid yn isel, mae ei enw da ymhlith y cyhoedd wedi gwella ond nid yw'r dulliau cydweithio yn ddigon strategol, er eu bod yn gwella, ac mae'n ymddangos bod y costau o reoli datblygiadau yn parhau i fod yn gymharol uchel | 9 |
| Mae bodlonrwydd cwsmeriaid â'r penderfyniadau a wneir am geisiadau cynllunio yn is na mewn awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ond mae gan yr Awdurdod fwy o hygrededd ymhlith grwpiau diddordeb allanol ac asiantau cynllunio | 9 |
| Mae darpariaeth y gwasanaeth cynllunio yn dda a gwneir penderfyniadau mwy cadarn a chyflymach ac mae gwell cyflenwad o dir ar gyfer tai ond roedd perfformiad yn gymysg o ran gorfodi | 11 |
| Mae'r Awdurdod wedi rhoi pwyslais cryfach ar greu incwm ac mae wedi sicrhau arbedion drwy ostyngiadau yn nifer staff y gwasanaeth cynllunio ond nid oedd hyn wedi ei arwain gan ddadansoddiad cymharol fanwl na strategaeth gweithlu | 13 |

| | |
|---|---|
| Mae’r Awdurdod yn gweithio’n fwy cydweithredol i ddarparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau a’i dargedau yn ddigon strategol i ddarparu arbedion cost sylweddol yn wyneb y cyni parhaus yn y sector cyhoeddus | 15 |
| Mae costau rheoli datblygiadau’r Awdurdod yn ymddangos yn uwch nag awdurdodau eraill, er bod y costau cyffredinol yn cymharu’n dda, ond mae anghytuno o ran i ba raddau y gellid cymharu’r wybodaeth | 17 |
| **Monitro ac adolygu:** Mae’r Awdurdod wedi gwella ei ddull o reoli perfformiad ond nid oes digon o bwyslais ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio | 23 |
| Mae’r dull o reoli perfformiad wedi gwella ond nid oes pwyslais eglur ar gost | 23 |
| Mae’r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio, a gwella’r elfennau hyn | 24 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae dyletswydd ar awdurdodau parciau cenedlaethol i amddiffyn y dirwedd y maent yn gyfrifol amdani, ac ar yr un pryd, sicrhau bod pobl yn cael mwynhau'r dirwedd honno. Rhan bwysig o'r ddyletswydd honno yw swyddogaeth cynllunio statudol awdurdodau'r parciau cenedlaethol[1]. Mae gwasanaethau cynllunio yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r amser a'r adnoddau y mae awdurdod parc cenedlaethol yn eu defnyddio wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid i'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn sylweddol yn ddiweddar. Daeth y toriadau hyn i rym yn ystod 2014-15, a bydd mwy o doriadau'n ofynnol yn ystod 2015-16 ac ar ôl hynny o bosibl. Mae pob awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru bellach yn gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut y maent yn ymdrin â gostyngiadau mewn cyllid. O ystyried y gyfran sylweddol sy'n cael ei gwario ar ddarparu gwasanaethau cynllunio ym mharciau cenedlaethol Cymru o gymharu â chynghorau, mae gostyngiadau yn y cyllid cyffredinol yn peri risgiau penodol. Mae'r astudiaeth hon yn archwilio ac yn cyflwyno adroddiad ar y modd y mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn mynd ati i reoli'r risg hwn. Ym mis Mai 2009, lluniwyd adroddiad arolygu[2] ar berfformiad gwasanaeth cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod). Canfu'r adroddiad hwnnw bod gwendidau yn y gwasanaeth cynllunio wedi niweidio enw da'r Awdurdod ond bod trefniadau rheoli ar yr adeg honno yn cynnig potensial i wella.

**3.** Rydym wëid gwneud gwaith ym mhob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru i asesu i ba raddau yr oeddynt yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithiol gyda llai o arian. Roedd ein gwaith maes yn yr Awdurdod yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau a data, yn ogystal â chyfres o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda detholiad o swyddogion, aelodau, cynghorwyr cymunedol ac asiantau cynllunio. Mae ein dadansoddiad a'n gwaith maes a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi caniatáu i ni gymharu perfformiad a chostau.

**4.** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithiol gyda'r nod o sicrhau perfformiad da, er gwaethaf y cyfyngiadau cynyddol ar y gyllideb?

**5.** Daethom i'r casgliad bod arweinyddiaeth dda a llywodraethu cryf yn gwella'r gwasanaethau cynllunio ond nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru a chyflawni gwerth am arian yn ddigon cadarn. Daethom i'r casgliad hwnnw oherwydd:

- mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur, mae wedi gwella'r prosesau craffu ac mae wedi gwella'r modd y mae uwch swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd;

[1] Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio a threftadaeth, datblygu cynlluniau defnydd tir lleol a chynlluniau treftadaeth ac ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau cynllunio a'u gorfodi.

[2] Swyddfa Archwilio Cymru, Gwasanaethau, **Gwasanaethau Cynllunio Awdurdod Parc Cenedaethol Bannau Brycheiniog**, Mai 2009

- mae perfformiad y gwasanaeth cynllunio yn dda ac, er bod bodlonrwydd cwsmeriaid yn isel, mae ei enw da ymhlith y cyhoedd wedi gwella ond nid yw'r dulliau cydweithio yn ddigon strategol, er eu bod yn gwella, ac mae'n ymddangos bod y costau rheoli datblygiadau yn parhau i fod yn gymharol uchel; ac
- mae'r awdurdod wedi gwella ei ddull o reoli perfformiad ond nid oes digon o bwyslais ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio.

**6.** Er mwyn helpu'r Awdurdod i ymdrin â'r meysydd gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r cynigion canlynol ar gyfer gwella. Dylai'r Awdurdod:

| | |
|---|---|
| C1 | Weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:<br>• data cyson a chadarn ar gyfer cymharu costau a chyfeintiau a'i ddefnyddio i ddangos a yw'n cynnig gwerth am arian ai peidio; a<br>• chanlyniadau perthnasol i helpu i fesur y cyfraniad tuag at fodloni'r nod o ddatblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn cysylltiad â newid hirdymor.<br>Dylai'r gwaith hwn gael ei gynnal drwy gydweithredu â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar brofiad Penaethiaid Cynllunio'r Alban a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr o fesur a chymharu costau. |
| C2 | Cynyddu lefelau cydweithio strategol a gwaith partneriaeth, yn enwedig gydag awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys chwilio am gyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio gweithlu manylach. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur, mae wedi gwella'r prosesau craffu ac mae wedi gwella'r modd y mae uwch swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd

### Mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur a ddatblygwyd ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol

**7.** Mae gwasanaethau cynllunio'r Awdurdod, gan weithio ochr yn ochr â'i swyddogaethau rheoli tir, yn elfen allweddol o'r gwaith o reoli'r defnydd o dir i sicrhau dyfodol hirdymor priodol i gymunedau, ymwelwyr ac i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Yn y modd hwn, mae'r gwasanaeth cynllunio yn cefnogi dau o ddibenion statudol yr Awdurdod sef cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r parc. Mae gan yr Awdurdod hefyd ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn ei ardal. Mae gan yr Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill Cymru, swyddogaeth allweddol o ran profi dulliau newydd o gyflawni nod bwysicaf Llywodraeth Cymru, sef datblygu cynaliadwy[3].

**8.** Mae gweledigaeth a nodau'r Awdurdod yn seiliedig ar ymgynghori sylweddol â thrigolion, busnesau a rhanddeiliaid. Mae gan yr Awdurdod weledigaeth eglur ar gyfer y parc cenedlaethol a fynegwyd yn ei Gynllun Rheoli. Mae'r Cynllun Rheoli yn gefndir i holl ddogfennau strategol yr Awdurdod.

**9.** Yn 2013, cysylltodd yr Awdurdod ei nodau a'i amcanion corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Gwella Busnes, â'r chwe thema yn y Cynllun Rheoli. Mae gan y Cynllun Rheoli nod eglur o sicrhau bod pobl yn deall pwysigrwydd y swyddogaeth gynllunio wrth fodloni ei nodau. Mae blaenoriaethau Cynllun Gwella Busnes yr Awdurdod yn pwysleisio swyddogaeth alluogol y gwasanaethau cynllunio, sydd yn ganolog i gefnogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddibenion a'i amcanion statudol.

### Mae cydweithio mwy effeithiol rhwng uwch swyddogion ac aelodau wedi esgor ar arweinyddiaeth well

**10.** Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth wedi gwella ers ein hadroddiad arolygu ym mis Mai 2009 ar berfformiad gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod. Canfu'r adroddiad hwnnw fod angen i'r Awdurdod sicrhau bod aelodau'n cyfrannu mwy at y gwaith o wella gwasanaeth, gan gynnwys craffu a rheoli perfformiad.

---

[3] Datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n bodloni anghenion presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwy.

**11.** Mae arweinyddiaeth gan aelodau ac uwch swyddogion bellach yn gryfach ac mae'r dulliau craffu a rheoli perfformiad wedi gwella'n sylweddol. Dywedodd aelodau a rhai o'r staff wrthym fod rhai aelodau llywodraeth leol nad oeddent wedi ymgysylltu'n effeithiol â gwaith yr Awdurdod cyn 2012, yn enwedig o ran ei swyddogaeth gynllunio. Dywedodd aelodau wrthym y bu cydweithio cryfach rhwng yr aelodau ers penodi aelodau Llywodraeth Cymru ac aelodau cyngor newydd yn 2012. Mae arbenigedd a phrofiad yr wyth unigolyn a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegu capasiti i aelodaeth yr Awdurdod. Ceir cydweithio mwy effeithiol hefyd rhwng y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, a chadeiryddion y gwahanol bwyllgorau erbyn hyn[4]. Mae hyn wedi cynyddu'r capasiti cyffredinol a ffocws yr Awdurdod a'i bwyllgorau.

**12.** Mae'r aelodau yn cynnig cefnogaeth dda i'r uwch reolwyr o ran eu penderfyniadau. Ceir dulliau cydweithio da rhwng y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio ac mae hyn wedi arwain at ffocws craffach ar newid diwylliant a datblygu sefydliad sy'n edrych tuag allan yn fwy. Ers dechrau ei swydd, mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio wedi cyflawni swyddogaeth arwain a rheoli sylweddol wrth fynd i'r afael ag ansawdd wael y ddarpariaeth flaenorol. Erbyn hyn, gwelir bod rhai gwelliannau sylweddol mewn perfformiad o'r sylfaen isel blaenorol. Gyda chymorth llawer o uwch swyddogion newydd, mae arweinwyr rheoli yr Awdurdod wedi cydnabod methiannau blaenorol ac mae ymagwedd fwy agored tuag at berfformiad a dysgu. Mae'r staff wedi ymateb i'r ymagwedd hon ac mae'r sefydliad wedi'i gwella'i berchnogaeth o faterion perfformiad a gwella.

## Mae'r Awdurdod wedi cryfhau ei brosesau craffu drwy ddysgu o fodelau mewn sefydliadau eraill a thrwy ymgysylltu â'r cyhoedd

**13.** Ers 2012, mae prosesau craffu'r Awdurdod wedi elwa ar ganfyddiadau cyd-adolygiad a gynhaliwyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gyda chefnogaeth grant gan Lywodraeth Cymru, ymchwiliodd y ddau awdurdod i arferion gorau, gan brofi prosesau a datblygu'r modelau craffu a oedd fwyaf addas ar gyfer y ddwy ardal. Er enghraifft, yn yr Awdurdod, mae craffu yn gysylltiedig ag amcanion gwella'r Awdurdod. Mae hyn yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r modelau craffu eraill lle y mae her yn gysylltiedig â phenderfyniadau neu bolisïau yn bennaf. Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd mewn gwaith craffu lleol yn creu mwy o gyfranogiad lleol ac yn cynyddu'r gobaith o sicrhau newid llwyddiannus mewn polisïau neu ddarpariaeth trwy wybodaeth ac arbenigedd lleol.

**14.** Daethom i'r casgliad bod prosesau craffu'r Awdurdod yn cynnwys ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod yn cynnal dau adolygiad craffu bob blwyddyn. Mae'r adolygiad cyntaf yn canolbwyntio ar flaenoriaeth wella o'r flwyddyn ariannol flaenorol ac mae'r ail yn ystyried y cynnydd ar un o'r blaenoriaethau gwella a ddewiswyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r cyhoedd yn cael cyfleoedd i

[4] Pwyllgorau Cynllunio a Hawliau Tramwy ac Archwilio a Chraffu.

bleidleisio ar feysydd i graffu arnynt ac i fod yn rhan o'r broses o ddarparu tystiolaeth ar unrhyw feysydd adolygu y mae'r Awdurdod yn eu dewis.

### Nod yr Awdurdod yw darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol ond mae diffyg pwyslais parhaus ar wireddu'r weledigaeth hon

**15.** Yn 2012-13, cyflwynodd yr Awdurdod ddulliau cryfach o fesur i'w gynorthwyo i asesu i ba raddau yr oedd yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol. Roedd y dulliau hyn yn canolbwyntio ar feysydd ansoddol megis gwerth ychwanegol, allbynnau a bodlonrwydd cwsmeriaid, gan ddibynnu llai ar ddulliau mesur mwy cyfyng, er enghraifft cyflymder. Mae'r dull hwn yn mynd ymhellach nag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ac ymhellach na'r hyn y mae llawer o gynghorau yng Nghymru yn anelu ato. Mae'n mynegi dealltwriaeth dda ac uchelgais i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a chytbwys sy'n bodloni anghenion ansawdd amgylcheddol, bodlonrwydd cwsmeriaid a chyflymder.

**16.** Gosododd yr Awdurdod rai targedau ar gyfer 2013-14, wedi eu cynllunio i fesur yr wyth parth rhagoriaeth mewn meysydd fel darparu cyngor ac arweiniad dilysu prydlon a phroffesiynol cyn gwneud cais. Nid yw 'darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol' bellach yn amcan ar ei ben ei hun gan yr Awdurdod ond mae'n ystyried ei fod wedi prif-ffrydio'r weledigaeth hon i sicrhau 'rhagoriaeth' yn ei waith arferol. Fodd bynnag, mae ein cyfweliadau â'r staff a'r aelodau yn awgrymu nad oedd hwn yn faes allweddol o bwyslais neu uchelgais i'r Awdurdod – ac nid yw'r gwasanaeth yn adrodd nac yn olrhain perfformiad yn erbyn yr wyth parth bellach. O ystyried ein hargymhelliad i'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau eraill i ddatblygu dulliau mwy eglur o fesur canlyniadau, rydym o'r farn ei bod angen edrych ar hyn unwaith eto.

## Mae perfformiad y gwasanaeth cynllunio yn dda ac, er bod bodlonrwydd cwsmeriaid yn isel, mae ei enw da ymhlith y cyhoedd wedi gwella ond nid yw'r dulliau cydweithio'n ddigon strategol, er eu bod yn gwella, ac mae'n ymddangos bod costau rheoli datblygiadau yn parhau i fod yn gymharol uchel

### Mae bodlonrwydd cwsmeriaid â'r penderfyniadau a wneir am geisiadau cynllunio yn is nag mewn awdurdodau parciau cenedlaethol eraill ond mae gan yr Awdurdod fwy o hygrededd ymhlith grwpiau diddordeb allanol ac asiantau cynllunio

**17.** Yn 2014-15, dim ond 42 y cant o'r rhai a gyflwynodd gais cynllunio, ac a ymatebodd i arolwg gan yr Awdurdod, a fynegodd eu bod yn fodlon yn gyffredinol â'r modd yr ymdriniwyd â'u cais. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag 87 y cant mewn arolwg tebyg yn

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a 75 y cant yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd cryn fwy nag un o bob tri ymgeisydd (39 y cant) yn anfodlon â'r modd yr ymdriniwyd â'u cais gan yr Awdurdod. Mae gwerthusiad bodlonrwydd cwsmeriaid yr Awdurdod ar gyfer 2014-15 yn seiliedig ar gyfradd ymateb isel o 36 o ymatebion, sef dim ond 13.1 y cant o'r ymgeiswyr/asiantau cynllunio yn yr arolwg. Mae'r lefel bodlonrwydd hwn yn gwrthgyferbynnu'n amlwg ag arolygon blaenorol yr Awdurdod, rhwng 2010-11 a 2012-13, a oedd yn dangos bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaeth cynllunio yn cynyddu. O ystyried y pwysigrwydd y mae gwasanaeth cynllunio yr Awdurdod yn ei roi ar gyfathrebu da, yn ogystal â'r capasiti ychwanegol y mae wedi'i ddatblygu yn y maes hwn, mae cyfleoedd i fynd i'r afael â chanfyddiadau cwsmeriaid am berfformiad gwael.

**18.** Er gwaethaf canfyddiadau defnyddwyr cwsmeriaid 2014-15, mae'r Awdurdod wedi gwella ei berthynas ar lefel fwy strategol gyda chynghorau tref a chymuned a grwpiau defnyddwyr cenedlaethol megis Cymdeithas y Tirfeddianwyr ac Undebau Ffermio. Mae hyn wedi arwain at fwy o hygrededd ymhlith grwpiau diddordeb allanol. Mae hyn yn cynnwys gwella gwybodaeth defnyddwyr o'r cysylltiadau rhwng y gwaith o gyflawni gwasanaethau cynllunio a dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae ymgysylltu effeithiol wedi bod yn rhan allweddol o'r gwelliant hwn. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn cyfarfod â grwpiau diddordeb cenedlaethol a lleol, sydd wedi bod yn cyn hyn yn feirniadol ac yn barod iawn i ddweud eu dweud, er mwyn esbonio a thrafod materion sy'n bwysig i'r naill a'r llall, yn enwedig gweithrediad a darpariaeth y gwasanaeth cynllunio.

**19.** Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio wedi cyfarfod â mwy nag 80 y cant o gynghorau tref a chymuned i drafod materion pwysig a materion sy'n peri pryder. Ymgysylltodd yr Awdurdod yn effeithiol hefyd â chynghorau tref a chymuned i ddatblygu ei gynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar, drwy ddefnyddio Cymorth Cynllunio Cymru, sef sefydliad sy'n canolbwyntio ar gymunedau. O ran bod yn agored, yr Awdurdod oedd y cyntaf yng Nghymru i ddarlledu holl gyfarfodydd ei bwyllgorau ar y we fel rhan o'i ymrwymiad i dryloywder.

**20.** Mynegodd asiantau cynllunio y siaradwyd â nhw bod ganddynt fwy o hyder yn y gwasanaeth cynllunio nag a fu yn y gorffennol. Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cynnwys tîm gwasanaeth cwsmeriaid penodol sy'n ateb ymholiadau ar y ffôn ac ar y we. Yn 2013-14 atebodd y tîm hwn 75 y cant o'r ymholiadau ar adeg y cyswllt cyntaf. Mae siarteri Cynllunio a Gorfodi yn helpu i reoli disgwyliadau rhanddeiliaid ac i roi cyngor ar-lein.

## Mae darpariaeth gwasanaeth cynllunio yn dda a gwneir penderfyniadau mwy cadarn a chyflymach ac mae gwell cyflenwad o dir ar gyfer tai ond roedd perfformiad yn gymysg o ran gorfodi

**21.** Mae perfformiad cynllunio'r Awdurdod o'i gymharu â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru 2014-15[5] yn gyffredinol dda. Mae'r fframwaith hwn yn nodi perfformiad da o ran ymgysylltiad y gwasanaethau cynllunio â chwsmeriaid a defnyddwyr y system gynllunio. Caiff y cyhoedd siarad ym mhwyllgor penderfyniadau'r Awdurdod ac mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys dolenni i ddogfennau allweddol yn ogystal â ffordd o olrhain cynnydd ceisiadau.

**22.** Mae'r Awdurdod yn derbyn y mwyafrif helaeth o'i geisiadau drwy'r porth cynllunio sy'n helpu i wella effeithlonrwydd y broses o ymdrin â'r ceisiadau. Yn 2014-15 ymdriniodd yr Awdurdod â rhan gyntaf y broses cais cynllunio yn gyflym ac mae wedi gwella ei effeithlonrwydd drwy sicrhau y gellid dilysu'r mwyafrif helaeth o'r ceisiadau. O'r holl geisiadau a dderbyniwyd, bu'n bosibl i'r Awdurdod ddilysu 97 y cant, sef y ffigur uchaf ymhlith awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cofnodi 89 y cant ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cofnodi 79 y cant .Yn 2014-15 dirprwyodd yr Awdurdod 93 y cant o'i benderfyniadau am geisiadau cynllunio i swyddogion. Mae'r gyfradd ddirprwyo uchel hon o gymorth i ategu gwneud penderfyniadau'n effeithlon.

**23.** Mae'r Awdurdod wedi parhau i wella ei gyflymder wrth wneud penderfyniadau ac mae wedi ei osod yn y band uchaf am 'effeithlonrwydd' gan Lywodraeth Cymru. Yn 2014-15 cynyddodd y ganran o'r holl geisiadau o fewn y cyfnod amser gofynnol o 72 y cant yn y flwyddyn flaenorol i 88 y cant. Hwn oedd y perfformiad gorau ond un ymhlith yr holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a'r gorau ymhlith awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Gwellodd y ganran o geisiadau mawr[6] y gwnaethpwyd penderfyniad ynglŷn â hwy o fewn y cyfnodau amser gofynnol, o 29 y cant i 40 y cant (dau allan o bum cais mawr), gan berfformio'n well na'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru. Roedd perfformiad o ran amddiffyn penderfyniadau apêl, sef 50 y cant, yn waeth na pherfformiad y ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru.

**24.** Yn 2014-15 gwellodd yr Awdurdod ei ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau rheoli datblygiadau gan ostwng ei gostau (gan gynnwys ailgodi) o £868,429 yn y flwyddyn flaenorol i £695,027.

**25.** Mabwysiadodd yr Awdurdod ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013, ar ôl gweithredu cyn hynny gyda Chynllun Datblygu Unedol a oedd wedi ei fabwysiadu'n gymharol ddiweddar. Mae'r cynllun hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd,

---

[5] **Llywodraeth Cymru: Tabl y Fframwaith Perfformio.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r Tabl Fframwaith Perfformiad bob chwarter.

[6] Mae ceisiadau 'Mawr' yn cynnwys ceisiadau ar gyfer datblygiad preswyl o 10 o anheddau neu fwy neu fwy na 0.5 hectar neu ar gyfer swyddfeydd, diwydiant cyffredinol neu ddatblygiad manwerthu o fwy na 1,000 $m^2$ neu un hectar.

cwsmeriaid cynllunio a datblygwyr mewn cysylltiad â’r defnydd o dir yn y parc cenedlaethol. Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i’r cynllun a bydd y gwaith monitro blynyddol yn y dyfodol yn darparu mwy o dystiolaeth o gynnydd tuag at fodloni ei amcanion defnydd tir. Mae pwyslais da ar ddatblygu cynlluniau cymunedol mewn pentrefi fel y Gelli Gandryll yn cynnig cyfleoedd i fynd i’r afael â materion lleol o’r gwaelod i fyny. Mae cymunedau’n gallu blaenoriaethu’r modd y defnyddir adnoddau yn lleol yn ogystal â helpu i greu ymdeimlad o le trwy hybu gwahanol ddigwyddiadau lleol. Mae’r pwyslais hwn ar gymunedau yn amlygu eto brofiad a chryfder cynyddol yr Awdurdod wrth ymgysylltu’n lleol a datblygu capasiti.

**26.** Mae’r Awdurdod wedi gwella ei gyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn sylweddol. Mae ei gyflenwad o dir ar gyfer tai yn 2014-15 o 5.5 mlynedd yn bodloni targed Llywodraeth Cymru sef 5 mlynedd ac mae yn y band perfformiad uchaf o bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y cyflenwad o dir ar gyfer tai yr Awdurdod yn 2013-14 a oedd ond yn 1.9 blwyddyn.

**27.** Mae pwyslais cryf yr awdurdod ar ddarparu cartrefi fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol wedi ei ategu gan dargedau polisi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn 2014-15, rhoddodd ganiatâd ar gyfer 36 o gartrefi fforddiadwy, sydd yn 22 y cant o'r holl dai a gymeradwywyd yn yr Awdurdod. Hon oedd y ganran fwyaf yn ystod y tair blwyddyn ariannol diwethaf. Er bod nifer y tai fforddiadwy wedi gostwng i chwech yn 2014-15 o 31 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mae'r duedd gyffredinol dros y tair blynedd diwethaf yn unol ar y cyfan â thargedau'r Cynllun Datblygu Lleol. Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'r Awdurdod wedi sicrhau £290,000 mewn cyfraniadau i dai fforddiadwy ac ymrwymiad i £420,000 arall. Bydd y symiau hyn yn cefnogi darpariaeth tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol wrth i'r Awdurdod weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**28.** Yn 2014-15, bu gwelliant yn y mesurau a ddefnyddiwyd i farnu ansawdd y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Awdurdod o'i gymharu â pherfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae’r Awdurdod bellach ym mand uchaf Llywodraeth Cymru o ran y ganran o apeliadau a wrthodwyd a'r diffyg mewn dyfarnu costau yn erbyn ei benderfyniadau cynllunio pan gawsant eu profi mewn apêl. Bu gwelliant yng nghanran yr apeliadau a wrthodwyd o 50 y cant yn 2013-14 i 80 y cant yn 2014-15. Hwn oedd y perfformiad gorau ymhlith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Ni ddyfarnodd yr Arolygiaeth Gynllunio unrhyw gostau yn erbyn yr Awdurdod wrth brofi ei benderfyniadau mewn apêl. Yn 2014-15 ni chadarnhaodd h yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw gwynion yn erbyn yr Awdurdod o ran y ffordd yr ymdriniodd â cheisiadau cynllunio. Mae hwn yn berfformiad llawer gwell o ystyried bod yr Ombwdsmon wedi cadarnhau dau gŵyn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Bu cynnydd yn nifer a chanran y penderfyniadau a aeth yn erbyn argymhellion swyddogion rhwng 2013-14 a 2014-15 er bod 12 y cant (2 allan o 17), sef perfformiad yr Awdurdod, yn unol â nifer fawr o awdurdodau cynllunio lleol. Roedd y ffigurau cymharol yn 48 y cant (10 allan o 21) ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chwech y cant (un allan o 17) ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro.

**29.** Mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei swyddogaeth gorfodi wrth ymdrin â thoriadau gwirioneddol a phosibl o reolaeth cynllunio. Cynyddodd y ganran o achosion gorfodi a ddatryswyd o fewn 84 diwrnod (12 wythnos) yn sylweddol o 22 y cant yn 2013-14 i 54 y cant yn 2014-15. O'i gymharu, nid yw'r Awdurdod yn perfformio cystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro yn y rhan fwyaf o'r dulliau mesur perfformiad gorfodi ac nid yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gallu darparu data y gellid ei gymharu. Er enghraifft yn 2014-15, cymerodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro gamau gorfodi neu cafodd gais cynllunio ôl-weithredol o fewn 180 o ddiwrnodau mewn 76 y cant o achosion o'i gymharu â 48 y cant yr Awdurdod. Hefyd, yn ystod yr un flwyddyn, cymerodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 88 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi o'i gymharu â 197 diwrnod yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar ostwng ei ôl-groniad o achosion gorfodi. Gostyngodd yr Awdurdod yr ôl-groniad o achosion o 124 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13 i 55 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15. Hwn oedd y nifer isaf o achosion a oedd yn parhau i fod heb eu datrys ymhlith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Roedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro gyfanswm o 83 o achosion a oedd yn parhau i fod heb eu datrys ac nid oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gallu darparu'r data.

**30.** Yn 2013-14 methodd yr Awdurdod â bodloni'r rhan fwyaf o'i dargedau treftadaeth adeiledig mewn meysydd megis cyllid grant ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl a chanllawiau ar gyfer ardaloedd cadwraeth. Roedd hyn oherwydd diffyg capasiti staff yn yr adran gadwraeth. Penderfynodd y rheolwyr ganolbwyntio adnoddau staff gostyngedig ar benderfynu ar geisiadau a chamau gorfodi. Canfu ein hadroddiad yn 2009 wendid tebyg o ran capasiti yng ngwaith treftadaeth adeiledig yr Awdurdod. Yn 2014-15, cynyddodd yr awdurdod ei gapasiti trwy gyflogi staff cadwraeth rhan-amser.

## Mae'r Awdurdod wedi rhoi pwyslais cryfach ar greu incwm ac mae wedi sicrhau arbedion drwy ostyngiadau yn nifer staff y gwasanaeth cynllunio ond nid oedd hyn wedi ei arwain gan ddadansoddiad cymharol fanwl na strategaeth gweithlu

**31.** Aeth yr Awdurdod i'r afael â thoriadau i'r gyllideb yn gynnar ac yn bendant. Nid yw'r Awdurdod wedi diogelu ei wasanaeth cynllunio rhag bod yn destun toriadau cyllideb gan fod pob un o wasanaethau'r Awdurdod yn gorfod dod o hyd i arbedion pan fo'n angenrheidiol. Dywedodd uwch reolwyr yr Awdurdod bod penderfyniadau ynglŷn â lefelau staffio wedi eu llywio gan ddyhead i gynnal lefel o berfformiad gwell ac ymrwymiad i ragoriaeth. Mae'r Awdurdod wedi sicrhau arbedion drwy ostwng lefelau staffio trwy'r gyfradd ymadael naturiol a thrwy achub ar gyfleoedd i ail-lunio ei weithlu. Mae enghreifftiau yn cynnwys diswyddo'r Pennaeth Rheoli Datblygiadau, uno'r swyddogaethau gorfodi a Rheoli Datblygiadau ac addasu swyddogaethau a chyfrifoldebau tri Phrif Gynllunwyr. Mae disgrifiadau swydd bellach yn hyblyg er enghraifft, gyda dulliau da o gyfnewid arbenigedd rhwng meysydd polisi cynllunio a rheoli datblygu.

**32.** Rhwng mis Mawrth 2012 a mis Mawrth 2015, lleihaodd y gwasanaeth cynllunio nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn o 23.45 i 19.95 (gweler Tystiolaeth 1) – lleihad o 15 y cant.  Fodd bynnag, nid yw lefelau staffio'r Awdurdod yn cael eu harwain gan strategaeth gweithlu na dadansoddiad cymharol neu feincnodi manwl yn erbyn awdurdodau cynllunio lleol â rhaglenni neu ffrydiau gwaith tebyg neu awdurdodau â pherfformiad uchel. Gallai dull o'r fath fod â'r potensial i gefnogi ymhellach ymgyrch yr Awdurdod i wella effeithlonrwydd.

Tystiolaeth 1: Tuedd yn nifer staff y gwasanaeth cynllunio (cyfwerth ag amser llawn)

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **APC Eryri** | | | |
| **Rheoli Datblygiadau** | 14 | 15 | 13 |
| **Polisi Cynllunio** | 5.9 | 5.9 | 5.5 |
| **Cyfanswm** | 19.9 | 20.9 | 18.5 |
| **APC Arfordir Penfro** | | | |
| **Rheoli Datblygiadau** | 15.85 | 14.65 | 12.85 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.75 | 3.35 | 2.85 |
| **Cyfanswm** | 19.6 | 18 | 15.70 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | | | |
| **Rheoli Datblygiadau** | 19.9 | 18.7 | 17.5 |
| **Polisi Cynllunio** | 3.55 | 2.95 | 2.45 |
| **Cyfanswm** | 23.45 | 21.65 | 19.95 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**33.** Mae'r Awdurdod wedi rhoi mwy o bwyslais ar incwm. Yr Awdurdod oedd y parc cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ac un o'r awdurdodau cynllunio cyntaf yng Nghymru i godi tal am gyngor cyn gwneud cais. Yn 2014-15, cynyddodd yr Awdurdod ei incwm o gyngor cyn gwneud cais o £26,380 yn y flwyddyn flaenorol i £27,580. Yn 2013-14, nid oedd gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru codi ffioedd penodedig yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, ond cyflwynodd Eryri gynllun peilot yn 2014-15, gan dderbyn incwm o £1,250. Mae'r Awdurdod wedi adolygu ei ddulliau o godi ffioedd ar gyfer cyngor cyn gwneud cais nifer o weithiau, sydd hefyd yn dangos ei allu i adolygu ac ystyried y galw a'r grymoedd economaidd lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn codi ffioedd i ymgeiswyr am gynhyrchu cytundebau adran 106[7].

[7] Cytundeb cyfreithiol i ddarparu seilwaith, gwasanaethau a chyllid ar neu oddi ar y safle datblygu.

## Mae'r Awdurdod yn gweithio'n fwy cydweithredol i ddarparu gwasanaethau cynllunio ond nid yw ei gynlluniau a'i dargedau yn ddigon strategol i ddarparu arbedion cost sylweddol yn wyneb y cyni parhaus yn y sector cyhoeddus

**34.** Mae'r Awdurdod yn cynyddu ei gapasiti, yn gwella ei wytnwch ac yn lleihau ei sylfaen gostau drwy weithio mewn partneriaeth â chynghorau. Un o nodau clir yr Awdurdod yw sicrhau effeithlonrwydd drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ac mae gan y gwasanaeth cynllunio drefniadau presennol ac arfaethedig i gefnogi'r nod hwn. Mae gan yr Awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu gwasanaethau cynllunio sy'n cynnwys ceisiadau mwynau a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'n gwneud rhywfaint o waith Cyngor Sir Powys ar ei ran y tu allan i ffin yr awdurdod parc cenedlaethol. Mae wedi gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn cysylltiad â chyngor ar gadwraeth adeiladau. Mae'r Awdurdodo hefyd yn elwa ar Gytundeb Fframwaith Cyfreithiol De Cymru, gan ei ganiatáu i ddefnyddio gwasanaethau cwmni cyfreithiol preifat ar faterion cynllunio.

**35.** Mae'r Awdurdod wedi dechrau gweithio'n agosach gydag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill Cymru ac mae wedi cynhyrchu rhestr o gamau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae pwyslais eglur yn y gwaith ar y cyd ar rannu arferion da a datblygu mwy o gapasiti ar y cyd.

**36.** Ers mis Ebrill 2014, mae rheolwr cynllunio y tri awdurdod parc cenedlaethol wedi cynhyrchu rhaglen ffurfiol o fentrau cydweithio, sy'n cynnwys rhaglen reolaidd o gyfarfodydd. Mae hyn yn cynnig mwy o botensial ar gyfer gwelliannau parhaus yn y tri awdurdod parc cenedlaethol ac mae'n rhoi cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithiolrwydd. Fodd bynnag, amlygwyd yr angen am gyfarfodydd swyddogion ar y cyd yn rheolaidd fel cam cyflym ymlaen gan adroddiad yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012[8] ac felly collodd awdurdodau'r parciau cenedlaethol beth amser cyn dechrau'r cyfarfodydd hyn o ganlyniad i ddiffyg capasiti. Mae enghreifftiau o allbynnau'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cytundeb lefel gwasanaeth ar y cyd rhwng y tri awdurdod mewn cysylltiad â rhannu'r gwaith o reoli datblygu ar adegau pan fo angen critigol, er enghraifft pan fo salwch neu gynnydd yn y llwyth gwaith. Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu i waith un awdurdod gael ei drosglwyddo i un o'r lleill. Mae potensial i hyn roi mwy o wytnwch o ran ymdrin â diffyg capasiti wrth weithredu'r gwasanaeth rheoli datblygu.

**37.** Mae'r tri awdurdod yn trafod sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth tebyg ar gyfer cynllunio datblygu. Fodd bynnag, mae'n amlwg ei bod yn annhebygol y bydd y dymuniad tymor canolig i dymor hwy o gydgysylltu ac uno'r adolygiadau o'r cynllun datblygu lleol yn digwydd oherwydd y gwahanol anghenion adolygu ac amserlenni lleol. Hyd yn hyn, nid yw'r awdurdod wedi defnyddio'r cytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r tri awdurdod wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu canllawiau Datblygu

---

[8] **Delivery of Planning Services in Statutory Designated Landscapes in Wales**, a baratowyd gan LUC ar gyfer Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru (Awst 2012)

Cynaliadwy fel Canllawiau Cynllunio Ychwanegol ac maent yn sicrhau mai un Awdurdod yn unig sy'n arwain wrth ymateb i ymgynghoriadau Lywodraeth Cymru ac ymgynghoriadau statudol mawr eraill. Mae enghreifftiau o drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd rhwng yr awdurdodau parc cenedlaethol yn cynnwys lleihad yn nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a welwyd gyntaf yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a mwy o bwyslais ar annog pobl i gyflwyno ceisiadau electronig drwy'r porth cynllunio cenedlaethol.

**38.** Er bod uchelgais eglur am gydweithio mwy effeithiol rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn bodoli, nid oes targedau eglur ac arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig yn cyd-fynd â hwn. Nid yw awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi adeiladu'n gyflym ac yn effeithiol ar y cyfleoedd a nodwyd yn adroddiad yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir i gydweithio'n well er mwyn creu cynllun gweithredu â blaenoriaethau, targedau a chostau eglur. Hyd yn hyn, mae'r enghreifftiau o gydweithio o werth isel o ystyried y gwariant cyllideb cyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu ymrwymiad cyffredin, tymor hwy i gydweithio'n agosach, er enghraifft drwy gyfuno strategaethau gweithlu neu gynlluniau tymor canolig a rennir.

**39.** Fodd bynnag, er i adroddiad yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir gasglu bod yr 'adrannau cynllunio'n gweithredu'n bennaf fel rhai annibynnol', mae ein canfyddiadau diweddaraf yn awgrymu bod y diwylliant o gydweithio yn gwella. O ystyried bod y tirlun ariannol wedi newid yn sylweddol ers adroddiad yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir ac adroddiad PricewaterhouseCoopers yn 2011[9], mae'r angen am gydweithio strategol rhwng cyrff sector cyhoeddus yn golygu bod mwy o angen i archwilio cydweithrediad strategol rhwng cyrff sector cyhoeddus fel modd o gynyddu effeithlonrwydd.

**40.** Mae ein safbwyntiau ar yr angen am gydweithredu strategol gwell rhwng awdurdodau'r parciau cenedlaethol er mwyn gwella gwerth am arian yn cyd-fynd â'r argymhellion a nodwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus 2014.[10] Er enghraifft, argymhellodd y Comisiwn bod angen i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu dulliau eglur a chyson o gydweithio â'i gilydd, a chydag awdurdodau lleol, gyda Croeso Cymru a chyda Cyfoeth Naturiol Cymru, ar lawr gwlad, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau ac arbenigedd prin'. Gydag arweinyddiaeth gryfach gan aelodau a swyddogion yn y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru, ceir cyfleoedd i wynebu mesurau cyni cyhoeddus ar sail fwy strategol ac ariannol y cytunwyd arni.

**41.** O ystyried y manteision posibl o weithio ar y cyd, cydweithredu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau cynllunio mae'n bwysig bod yr Awdurdod hefyd yn cydnabod y gallai fod dewisiadau i weithio'n agosach gydag awdurdodau cynllunio cynghorau cyfagos. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithredu strategol a arweiniodd at arbedion sylweddol

---

[9] PricewaterhouseCoopers, **Review of the Welsh National Park Authorities' Planning Services**, Ionawr 2011, ar gyfer y tri parc cenedlaethol yng Nghymru.

[10] Gweler paragraff 2.60 o **Llywodraeth Cymru Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus 2014**

mae rhai cyd-wasanaethau mewn llywodraeth leol, rhwng llywodraeth leol ac iechyd, a rhwng yr Awdurdodau Tân.[11]

## Mae costau rheoli datblygiadau yr Awdurdod yn ymddangos yn uwch nag awdurdodau eraill, er bod y costau cyffredinol yn cymharu'n dda, ond mae anghytuno o ran i ba raddau y gellid cymharu'r wybodaeth

**42.** Canfu ein hastudiaeth bod diffyg cynnydd parhaus ymhlith awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru o ran cytuno ar sut y dylid asesu a chymharu costau'r gwasanaethau cynllunio. Yn 2009, ar ôl arolygiad o wasanaeth cynllunio'r Awdurdod (gweler paragraff 2), argymhellwyd bod yr Awdurdod yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill i sicrhau y gellid cymharu'r data ar gostau a defnyddio'r wybodaeth hon i ddangos ei fod yn darparu gwerth am arian.

**43.** Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad PricewaterhouseCoopers yn 2011, a gomisiynwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, y dylai'r tri awdurdod gynnal dadansoddiad arall o gostau ac adnoddau er mwyn deall a chytuno ar sail gyson ar gyfer cymharu. Er gwaethaf yr argymhellion hyn, nid yw awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru wedi gwneud unrhyw gynnydd ar gytuno ar ddata y gellid ei gymharu. Trafodir hyn yn fanylach yn hwyrach yn yr adroddiad hwn, ond mae'n esbonio pam y bu'n rhaid i ni ddefnyddio gwahanol gyfresi data yn ein dyfarniadau isod.


**44.** Yn 2013-14, wrth eu mesur yn ôl enillion alldro refeniw[12] (gweler Tystiolaeth 2), roedd costau rheoli datblygiadau yr Awdurdod yn £947,000. Mae hyn yn cymharu â chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sef £564,000 ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sef £475,000. Wrth eu hasesu yn ôl enillion alldro refeniw, mae costau rheoli datblygu'r Awdurdod wedi bod yn gyson uwch nag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill Cymru.

---

[11] LGA a Drummond Macfarlane 2012, **Services shared: costs spared? An analysis of the financial and non-financial benefits of local authority shared services**

[12] Mae all-dro refeniw yn cynrychioli costau gweithredu gwasanaethau fel staffio ac adeiladau, yn ogystal a gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth.

Tystiolaeth 2: Costau rheoli datblygu a fesurwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru - ffigyrau alldro refeniw




*Ffynhonnell: Welsh Government based on data supplied by national park authorities in Wales*

**45.** O ganlyniad i bryderon am ansawdd data a'r gallu i'w cymharu, nid oes gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yr hyder i ddefnyddio'r ffigyrau alldro refeniw fel sail ar gyfer dadansoddiad o gost. Rydym yn cydnabod rhai o'r pryderon hyn ac felly gofynnwyd i awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru baratoi costau eraill y gellid eu cymharu ar gyfer eu gwasanaethau rheoli datblygu, rhai gwasanaethau polisïau cynllunio a chynhyrchu cynllun lleol. Gwnaethpwyd hyn ar gyfer 2011-12 (gweler Tystiolaeth 3 i 5) i 2014-15 a chasglwyd costau y gellid eu cymharu ar gyfer tri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr ar gyfer 2013-14.

**46.** Ers 2013-14 mae costau rheoli datblygiadau'r Awdurdod wedi bod yn gyson uwch nag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Yn seiliedig ar ffigurau 2013-14 roedd costau'r Awdurdod yn sylweddol uwch na thri awdurdod parc cenedlaethol tebyg yn Lloegr (gweler Tystiolaeth 4). Yn 2014-15 roedd costau rheoli datblygiadau'r Awdurdod (gan gynnwys ailgodi) yn £695,027 o'u cymharu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sef £507,000 ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sef £490,684 (gweler Tystiolaeth 5). Roedd costau cyfartalog fesul cais (gan gynnwys ailgodi) yn dod i gyfanswm o £1,226 o'u cymharu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sef £933 ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro sef £813. Yn 2014-15 roedd costau rheoli datblygiadau cymharol yr Awdurdod sef £399,686 (heb gynnwys ailgodi)

hefyd yn dal i fod yn sylweddol uwch na chostau'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Tystiolaeth 3: Costau Rheoli Datblygu 2012-13

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 508 | 400 | 556 |
| **Costau gyda chostau ailgodi** | £380,483 | £667,033 | £817,619 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £749 | £1,668 | £1,471 |
| **Costau heb gostau ailgodi** | £194,503 | £458,928 | £402,831 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £383 | £1,057 | £723 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

Tystiolaeth 4: Costau Rheoli Datblygiad 2013-14

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog | APC Dartmoor | APC Dyffrynnoedd Swydd Efrog | APS y Peak District |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 577 | 469 | 505 | 671 | 574 | 641 |
| **Costau gyda chostau ailgodi** | £465,935 | £575,261 | £868,429 | £548,667 | £519,000 | £432,000 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £808 | £1,227 | £1,719 | £818 | £904 | £674 |
| **Costau heb gostau ailgodi** | £275,725 | £337,352 | £485,533 | £368,406 | £365,000 | £183,000 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £478 | £719 | £961 | £549 | £636 | £285 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn ogystal â thri awdurdod parc cenedlaethol yn Lloegr*

Tystiolaeth 5: Costau Rheoli Datblygiad 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio** | 526 | 623 | 567 |
| **Costau gyda chostau ailgodi** | £490,684 | £507,000 | £695,027 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £933 | £813 | £1,226 |
| **Costau heb gostau ailgodi** | £277,034 | £304,000 | £399,686 |
| **Cost gyfartalog fesul cais** | £527 | £488 | £705 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**47.** Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Tystiolaeth 6) ar gyfer cynnydd o 7.05 y cant yn ei gostau rheoli datblygiadau (gan gynnwys ailgodi). Er bod hwn yn gynnydd canrannol is nag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a gynyddodd ei gostau tebyg gan 11.8 y cant, mae'r costau y mae'r Awdurdod wedi'u cyllidebu, sef £747,735 yn sylweddol uwch nag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Gellir esbonio costau traddodiadol uchel yr Awdurdod (gan gynnwys ailgodi) yn rhannol gan y costau cyfreithiol mawr sy'n gysylltiedig â mater gorfodi dadleuol hirdymor ar gyfer adeilad rhestredig. Plediodd diffynnydd yn euog yn ddiweddar i bum cyhuddiad o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac mae'r Awdurdod yn aros am ddyfarniad o ran adhawlio ei gostau. Fodd bynnag mae costau wedi'u cyllidebu yr Awdurdod ar gyfer 2015-16 (heb gynnwys ailgodi) sef £449,640 yn parhau i fod yn uwch nag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru.


Tystiolaeth 6: Cyllideb ar gyfer Costau Rheoli Datblygiadau 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gydag ailgodi** | £501,590 | £574,888 | £747,735 |
| **Costau heb ailgodi** | £283,450 | £353,322 | £449,640 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**48.** Yn 2013-14, wrth eu mesur yn ôl enillion all-dro refeniw (gweler Tystiolaeth 7), roedd costau Cynllunio Ymlaen Llaw a Chymunedau yr Awdurdod, sef £748,000, yn is na chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sef £841,000.

Tystiolaeth 7: Costau cynllunio ymlaen llaw a chymunedau wedi eu mesur gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru – ffigyrau all-dro refeniw




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**49.** Yn 2014-15 roedd costau Polisi Cynllunio'r Awdurdod (gan gynnwys ailgodi) sef £134,066 yn sylweddol is na chostau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sef £380,242 ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sef £330,000. Roedd y costau (heb gynnwys ailgodi) sef £116,321 yn sylweddol is na chostau tebyg yn yr awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru (gweler Tystiolaeth 8).

Tystiolaeth 8: Costau Polisïau Cynllunio 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gydag ailgodi** | £380,242 | £330,000 | £134,066 |
| **Costau heb ailgodi** | £263,042 | £251,000 | £116,321 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru .*

**50.** Yn 2015-16 mae'r Awdurdod yn cyllidebu (gweler Tystiolaeth 9) ar gyfer cynnydd sylweddol uwch wrth ddarparu ei wasanaeth Polisïau Cynllunio o'i gymharu â'r gwasanaeth Rheoli Datblygiadau. Mae costau wedi eu cyllidebu yr Awdurdod (gan gynnwys ailgodi) sef £204,830 yn cynrychioli cynnydd o fwy na thraean (34.5 y cant) ar y flwyddyn ariannol flaenorol.

Tystiolaeth 9: Cyllideb ar gyfer Costau Polisïau Cynllunio 2015-16

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gydag ailgodi** | £410,790 | £256,793 | £204,830 |
| **Costau heb ailgodi** | £294,030 | £186,873 | £186,920 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**51.** Yn 2014-15, roedd costau'r Awdurdod ar gyfer rheoli datblygiadau a pholisïau cynllunio wedi eu cyfuno yn is na'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, wrth gynnwys ailgodi a pheidio â'i gynnwys (gweler Tystiolaeth 10).

Tystiolaeth 10: Costau Rheoli Datblygiadau a Pholisïau Cynllunio wedi'u cyfuno 2014-15

| | APC Eryri | APC Arfordir Penfro | APC Bannau Brycheiniog |
|---|---|---|---|
| **Costau gydag ailgodi** | £870,926 | £837,000 | £829,093 |
| **Costau heb ailgodi** | £540,076 | £555,000 | £516,007 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

**52.** Roedd amcangyfrif yr Awdurdod o'r costau wrth gynhyrchu ei Gynllun Datblygu Lleol (gweler Tystiolaeth 11) yn uchel o'i gymharu ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Roedd hyn, o leiaf yn rhannol, oherwydd bod y broses archwilio cyhoeddus wedi cymryd mwy o amser nag ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru. Ei gostau oedd £979,351, o'i gymharu â £777,000 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a £450,000 yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Tystiolaeth 11: Y gost o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a dyddiad y mabwysiadu

| | Cost | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|---|
| **APC Eryri** | £770,000 | 2011 |
| **APC Arfordir Penfro** | £450,000 | 2010 |
| **APC Bannau Brycheiniog** | £979,351 | 2013 |

*Ffynhonnell: Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru*

# Mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddull o reoli perfformiad, ond nid oes digon o bwyslais ar gostau, gwerth am arian na chanlyniadau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio

## Mae'r dull o reoli perfformiad wedi gwella ond nid oes pwyslais eglur ar gost

**53.** Ers 2012-13, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno prosesau rheoli perfformiad cryfach ym meysydd gorfodi a rheoli datblygiad. Drwy'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu, mae aelodau wedi cynorthwyo swyddogion i fynd i'r afael ag ôl-groniad o achosion gorfodi a chynyddu cyflymder y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Awdurdod wedi ail-ganolbwytio capasiti presennol er mwyn gwella perfformiad i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Er enghraifft, mae wedi cyfeirio uwch arweinwyr cyfreithiol i ymdrin â'r ôl-groniad o achosion gorfodi mewn modd systematig, wedi ei flaenoriaethu. O ganlyniad, mae'r ôl-groniad yn nifer yr achosion gorfodi wedi gostwng yn sylweddol, o 300 i 55 rhwng 2012-13 a 2014-15.

**54.** Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio ac uwch reolwyr wedi rheoli perfformiad i sicrhau bod cyflymder prosesu yn gwella ym mhob categori o geisiadau cynllunio. Er enghraifft, yn 2014-15, penderfynodd yr Awdurdod ar 93 y cant o geisiadau gan ddeiliaid tŷ o fewn wyth wythnos, sef cynnydd o 70.9 y cant ar 2012-13. Mae'r rheolwyr wedi gwneud penderfyniadau realistig a synhwyrol i ail-alinio adnoddau i gefnogi targedau allweddol. Mae'r gwelliant hwn wedi ei gyflawni trwy newid diwylliannol a sefydliadol. Er enghraifft, mae rheolwyr yn paru mathau o geisiadau â sgiliau a phrofiad perthnasol y swyddogion.

**55.** Fodd bynnag, er gwaethaf yr angen i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd cost, ni chanfuom linyn neu bwyslais cryf ar gost mewn cynlluniau gwella busnes neu mewn cynlluniau tîm. Er bod aelodau'n derbyn adroddiadau cyllideb lefel uchel, nid yw'n ymddangos eu bod yn cynnwys unrhyw wybodaeth am gost y gellid ei chymharu a chanfu ein cyfweliadau ag aelodau a staff nad oedd llawer o bwyslais ar gostau darparu gwasanaethau na llawer o ddealltwriaeth ohonynt. Yn 2014-15, ni chyflwynodd yr Awdurdod amcan gwella newydd i adlewyrchu'r gostyngiad mewn cyllid grant cyhoeddus, yn wahanol i'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru.

## Mae'r Awdurdod yn colli cyfleoedd i roi sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian a chanlyniadau ei wasanaethau cynllunio, a gwella'r elfennau hyn

**56.** Er gwaethaf y ffaith bod y tirlun ariannol wedi newid yn sylweddol a'r cynnydd yn ffocws yr Awdurdod ar ganfod arbedion, canfu ein cyfweliadau ag aelodau a staff nad yw'r Awdurdod wedi gwneud llawer i wella'i ddealltwriaeth fanwl o werth am arian. Mae'r Awdurdod, ynghyd ag awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru, wedi bod yn araf i ddatblygu dangosyddion a mesurau llwyddiant. Nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ganfyddiadau dau adroddiad sylweddol a argymhellodd y dylai weithio gyda'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru i gytuno ar fframwaith cyson ar gyfer mesur a chymharu gwerth am arian.

**57.** Roedd ein hadroddiad arolygu yn 2009 ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod yn nodi y dylai'r Awdurdod 'gymeradwyo canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy o ran Rheoli Datblygiadau sy'n ymwneud â... gwerth am arian. Unwaith y cytunir ar y canlyniadau hyn, dylid diweddaru cynlluniau gweithredu er mwyn nodi'n glir pa gamau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.' Yn yr un modd, argymhellodd astudiaeth PricewaterhouseCoopers yn 2011 y dylai'r tri awdurdod gytuno ar sail gyson ar gyfer diffinio'r dulliau mesur (er mwyn gallu eu cymharu) ac yn benodol y rhai hynny sy'n ymwneud â chyllid'.

**58.** Mae'r Awdurdod yn cydnabod y feirniadaeth hon yn rhannol ac o'r farn bod angen mwy o waith manwl ar gostau gweithgareddau penodol efallai. Fodd bynnag, mae'n nodi bod ei bwyslais hyd yn hyn, o reidrwydd, wedi bod ar symleiddio prosesau sydd wedi gwella effeithlonrwydd. Rydym yn cydnabod y camau y mae'r Awdurdod wedi eu cymryd dros y blynyddoedd diweddar i wella llywodraethu a pherfformiad ond gellid gwneud ymdrech gryfach i ddeall costau uchel y gwasanaethau cynllunio yn well, a phan fo'n angenrheidiol, mynd i'r afael â'r costau uchel hyn. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw'r Awdurdod a'r awdurdodau parciau cenedlaethol eraill yng Nghymru wedi datblygu dulliau safonol o fesur cost. Mae'r awdurdodau'n dadlau nad yw'r cymariaethau'n briodol oherwydd gwahaniaethau yn y cyfresi data, yn enwedig y ffigyrau blynyddol ar gyfer all-dro refeniw.

**59.** Ymddengys nad oes rhesymau eglur sy'n egluro pam nad yw awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi ceisio cytuno ar safonau neu fesurau priodol er mwyn darparu dulliau meincnodi ansoddol a meintiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod profiad yn Lloegr a'r Alban yn dangos bod yna fethodoleg eglur wedi ei sefydlu i

fesur a chymharu prosesau a'r amser/costau cysylltiedig. Mae Awdurdodau a'u grwpiau teuluol wedi cael cyfle i archwilio perfformiad o'i gymharu â'i gilydd a dysgu a gwella os oes angen. Mae rhai mesurau, safonau a chwestiynau defnyddiol ar gyfer gwasanaethau cynllunio'r Awdurdod wedi eu nodi yn Tystiolaeth 11[13]:

Tystiolaeth 11: Cyfleoedd ar gyfer meincnodi er mwyn rhoi sicrwydd neu ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cynllunio yn yr awdurdodau parciau cenedlaethol

**Ceisiadau a llwyth gwaith**

- A yw awdurdodau parciau cenedlaethol a'u cymheiriaid yn wahanol i'w gilydd, a pham?
- A yw'r gymysgedd o geisiadau/ffioedd yn cynrychioli unrhyw risg?

**Canlyniadau**

- A yw cyfraddau cymeradwyo awdurdodau parciau cenedlaethol yn gwahaniaethu'n sylweddol o'i gilydd a'u cymheiriaid?
- Beth allai fod yn digwydd mewn mannau eraill y gallai awdurdodau'r parciau cenedlaethol ddysgu oddi wrthynt?

**Gwerth a dim gwerth – ceisiadau a dynnwyd yn ôl**

- Beth yw'r duedd gyffredinol?
- Beth y mae'r awdurdodau parciau cenedlaethol yn ei wneud i osgoi hyn ac a yw'n gweithio?
- Beth sy'n digwydd i'r tueddiad mewn ceisiadau am ddim gan nad yw ffioedd yn talu'r costau?

**Gwerth a dim gwerth – ceisiadau dilynol**

- Beth yw'r tueddiadau o ran rhyddhau amodau a gwneud diwygiadau materol bach?
- Sut y gellid lleihau'r costau i'r lefel isaf bosibl?
- Pwy sy'n gwneud hyn yn dda?

**Amcangyfrif o nifer y staff**

- Pa mor dda y mae'r adnoddau wedi eu paru i'r gwaith?
- Beth yw'r llwythi achosion o ran nifer ac o ran y math o geisiadau?
- A oes cyfleoedd i ailgyfeirio adnoddau?

**Gwerth buddsoddiad**

- A yw'r awdurdodau parciau cenedlaethol yn gwybod beth yw gwerth y buddsoddiad y mae cynigion datblygu yn ei gynrychioli?
- Beth y mae tueddiadau sy'n cynyddu/gostwng yn ei olygu ar gyfer strategaethau gweithlu presennol ac yn y dyfodol?

[13] Daw'r enghreifftiau o gyfleoedd i gymharu o **Fframwaith Ansawdd Cynllunio'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio**

**60.** Heb gytuno ar ddulliau mesur a safonau priodol ac asesu sut y maent yn cymharu â'i gilydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod asesu pa un a yw'n darparu gwerth da am arian i drethdalwyr lleol a chwsmeriaid cynllunio sy'n talu am wasanaeth. Heb ddealltwriaeth well o feysydd lle y gellir sicrhau effeithlonrwydd, mae'n anoddach i'r Awdurdod flaenoriaethu gwelliannau. Mae agenda 'Cynllunio Cadarnhaol' newydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i annog a chefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymro ac awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i roi pwyslais mwy eglur ar gost, gwerth am arian a meincnodi gwell. Dylai unrhyw waith ar feincnodi yng Nghymru adeiladu ar y profiad a'r arbenigedd a gafwyd trwy Benaethiaid Cynllunio'r Alban[14] a'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio yn Lloegr wrth gefnogi awdurdodau cynllunio i wella perfformiad a gwerth am arian.

**61.** O ran dulliau mesur nad ydynt yn rhai ariannol, nid yw'r Awdurdod wedi gweithredu ar ein hargymhelliad yn 2009 i ddatblygu canlyniadau cyraeddadwy a mesuradwy yn ymwneud â themâu gan gynnwys ansawdd. Mae cyfleoedd yn bodoli i'r Awdurdod fynd ati'n well i ddangos ei gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy, ffyniant economaidd a lles. Er enghraifft, mae rhai o'r dangosyddion o lwyddiant yn yr Awdurdod yn ymwneud â ffyniant economaidd a chludiant cynaliadwy yn seiliedig ar allbynnau megis taflenni a ddosberthir neu nifer y bobl sy'n derbyn hyfforddiant. Yn yr un modd, gallai'r Awdurdod adeiladu ar y dulliau o fesur rhagoriaeth a'r dulliau newydd o fonitro'r cynllun datblygu lleol i ddatblygu dulliau o fesur gwerth ychwanegol a fyddai'n helpu i asesu canlyniadau ansoddol anoddach, er enghraifft cyfraniad y system gynllunio at ffyniant economaidd neu les y gymuned.

**62.** Mae cyfleoedd yn bodoli i awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru gydweithio i ddatblygu dulliau mesur canlyniadau mwy ansoddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys adolygu a datblygu'r 49 dull o fesur llwyddiant o adroddiad PricewaterhouseCoopers yn 2011, a gweithio'n agosach â Phenaethiaid Cynllunio'r Alban a'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn Lloegr i adolygu arferion da.

[14] Penaethiaid Cynllunio'r Alban: **Planning Performance Framework 2014-15 reports**

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru